| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Tachwedd 18fed 2020 |
| **TEITL** | Dynodiad Awyr Dywyll |
| **PWRPAS** | Gwybyddu Aelodau a cheisio cefnogaeth |
| **AWDUR** | Swyddog AHNE |
| **ARGYMHELLIAD** | Cefnogi cais am statws Parc Awyr Dywyll |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Ers peth amser mae’r Uned AHNE wedi bod yn gweithio tuag at geisio am statws Awyr Dywyll Rhyngwladol ar gyfer ardal AHNE Llŷn.

1.2 Y cam cychwynnol oedd comisiynnu Arolwg Awyr Dywyll er asesu pa mor dywyll oedd awyr y nos yn yr ardal a faint o lygredd goleuadau oedd yn bodoli. Dangosodd yr arolwg yma, a ariannwyd gan Llywodraeth Cymru, fod awyr y nos yn dywyll iawn mewn rhannau o Lŷn ac mai ychydig iawn o lyredd oedd yn bodoli.

## 2.0 PROSIECT NOS

2.1 Daeth yn amlwg yn fuan fod AHNE Ynys Môn ac AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy hefyd yn gweithio ar geisiadau statws awyr dywyll tra bod Parc Cenedlaethol Eryri eisioes wedi derbyn dynodiad Gwarchodfa Awyr Dywyll. Penderfynodd y gallai’r pedair ardal gydweithio ar waith awyr dywyll a sefydlwyd Prosiect “Nos”.

2.2 Bwriad prosiect Nos yw cydweithio i gynnal, gwarchod a hyrwyddo awyr dywyll y nos yn yr ardaloedd a gweithio ar statws rhyngwladol Awyr Dywyll. Fel rhan o’r prosiect bydd monitro cyson o’r awyr dywyll, codi ymwybyddiaeth am lygredd goleuadau a chynnal digwyddiadau gwylio sêr. Mae gwaith prosiect Nos yn cael ei gydgordio gan y swyddog prosiect –Dani Robertson. Bydd Dani yn ymuno yn y cyfarfod i sôn mwy am brosiect Nos.

## 3.0 CAIS AM STATWS AWYR DYWYLL I AHNE LLYN

3.1 Yr International Dark Sky Association (IDA) sydd wedi sefydlu y cysyniad o ardaloedd Awyr Dywyll ac yn rheoli y broses ddynodi. Mae gwahanol fathau o ddynodiadau yn bosibl – yn cynnwys statws Noddfa, Cymuned, Parc a Gwarchodfa.

3.2 Yn wreiddiol roedd Uned AHNE Llŷn yn bwriad ymgeisio am statws Cymuned ar gyfer yr ardal. Fodd bynnag, yn seiliedig ar ganlyniadau monitro a thrafodaeth gyda’r IDA rydym o’r farn y byddai statws Parc yn

adlewyrchiad gwell o safon yr awyr dywyll yn yr ardal yn ogystal â rhoi mwy o statws i'r ardal.

## 4.0 ARGYMHELLIAD

4.1 Cefnogi cais gan Uned AHNE i'r IDA am ddynodiad Parc Awyr Dywyll ar gyfer AHNE Llŷn.